WILLIAMS, WILLIAM (c. 1625 - 1684), hynafiaethydd

Enw: William Williams
Dyddiad geni: c. 1625
Dyddiad marw: 1684
Priod: Myddanwy Lloyd (née Jones)
Rhiant: Edward Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Emyr Gwynne Jones

Ganwyd c. 1625, ail fab Edward Williams Carwed Fynydd, Llannefydd, sir Ddinbych. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Westminster, ac yn 1642 ymaelododd yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, lle y graddiodd yn B.A. yn 1647/8 ac yn M.A. yn 1657. Yn 1660 cyflwynwyd ef gan Robert, arglwydd Bulkeley, i fywoliaeth Llandegfan a Biwmares, er nid ymddengys iddo ddal y swydd ond am flwyddyn. Gadawodd Landegfan yn 1668 i fod yn rheithor Llansadwrn, a symudodd oddi yno drachefn y flwyddyn ddilynol i ficeriaeth Llangurig yn Sir Drefaldwyn. Bu'n ficer Llaneurgain, 1672-7, a Rhuddlan, 1678-84; daliai, hefyd, fywiolaethau diofal Llansannan, 1663-78, a Bodfari, 1672-81. Gwnaed ef yn ganon o eglwys gadeiriol Llanelwy yn 1679. Rhuddlan ydoedd ei fywoliaeth olaf, a bu farw cyn 28 Mehefin 1684. Priododd â Myddanwy, gweddw John Lloyd, Plas Llanddyfnan, a merch William Jones, Plas Gwyn, Pentraeth. Yr oedd yn hynafiaethydd cymwys a dibynadwy, fel y tystia hynny o'i waith a erys ar glawr, sef: 'Historia Bellomarisci,' 1669, a gyhoeddwyd fel atodiad i'r adargraffiad o *Tours in Wales*, Fenton (*Archæologia Cambrensis*, Supplement, 1917); ' History of the Bulkeley Family ' (1673-4), a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, 1948; a hanes, llygad-dyst o bosibl, o'r gwrthryfel ym Môn yn 1648, a ymddengys fel atodiad i gerdd Richard Llwyd, ' Beaumaris Bay.'

Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Ffynonellau

Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn, 1948, 1-99, a'r awdurdodau a enwir yno

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738195

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu